

Annwyl Syr/Madam

**Gofynion Casglu Gwastraff ar Wahân - Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 diwygiedig**  
**Beth sy'n digwydd? Gwybodaeth ar gyfer Ddarparwyr Gwasanaethau casglu Gwastraff a**  
**Gweithredwyr Cyfleusterau Gwastraff**

Fel y gwyddoch, o bosibl, mae rheoliadau 2011 ar Gasglu Gwastraff ar wahân yn dod i rym yng Nghymru ar y 1<sup>af</sup> Ionawr 2015. Mae'r rheoliadau yn gwneud hi'n orfodol i'ch cwmni/sefydliad i gwrdd â'r lefelau lleiaf o wasanaeth newydd er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig ag ailgylchu o ansawdd uchel.

Rydym am sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r gofynion ac am eich helpu esbonio'r gofynion hyn i'ch cwsmeriaid.

**Ein disgwyliadau**

Mae Rheoliadau 2011 yn gofyn i gasglwyr gwastraff gymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod gwastraff yn cael ei reoli mewn modd sy'n hyrwyddo ailgylchu o'r safon uchaf, a bod eu cwsmeriaid masnachol yn cael gwasanaeth gwastraff digonol.

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr casglu gwastraff i, o leiaf –

1. Ddarparu gwasanaeth casglu deunydd ailgylchu cymysg mewn amgylchiadau lle nad yw casglu ar wahân yn ymddangos yn ymarferol;
2. Osgoi systemau casglu cymysg sy'n cynnwys papur a gwydr;
3. Sicrhau fod gan eu cwsmeriaid masnachol biniau gwastraff gweddilliol ar gyfer deunydd ailgylchu;
4. Sicrhau fod eu cwsmeriaid masnachol yn gwybod pa ddeunyddiau sy'n ailgylchadwy a sut mae'r deunydd yn cael ei gyflwyno i'w gasglu;
5. Cynnal archwiliadau rheolaidd o finiau ailgylchu am ddifwyniant a rhoi adborth i gwsmeriaid, er mwyn diogelu neu wella ansawdd y deunydd a gasglwyd.


Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth casglu sy'n dymuno cynnig gwasanaeth cymysg sy'n cyfuno papur a gwydr gyflwyno tystiolaeth i brofi fod y deunydd ac ansawdd y gwastraff a ailgylchwyd ddim yn sylweddol llai na'r hyn fyddai'n deillio o gasgliad ar wahân.

Mae'n rhaid i weithredwyr cyfleuster gwastraff sicrhau nad yw gwastraff sy'n cael ei gasglu ar wahân yn cael ei gymysgu gyda deunydd neu wastraff arall sydd â gwahanol briodweddau. Byddem yn cymryd camau os fyddai deunydd na ellid ei ailgylchu ac/neu'n cael ei gasglu'n fwriadol gyda deunydd ailgylchu cymysg neu ddeunydd ailgylchu arall gasglwyd ar wahân, gan fod cymysgu'r deunydd ailgylchu penodedig gyda gwastraff arall na ellir ei ailgylchu ddim yn cydymffurfio â Rheoliadau 2011. Rhaid i gwsmeriaid sy'n cynhyrchu gwastraff na ellir ei ailgylchu derbyn biniau ar gyfer gwastraff cyffredinol.

Byddwn yn ysgrifennu atoch yn gofyn ichi gyflwyno gwybodaeth am eich dulliau casglu presennol, ar ddechrau 2015. Lle nad ydych yn casglu ar wahân, byddwn yn gofyn sut rydych wedi defnyddio'r profion ymarferoldeb ac anghenraid. Bydd y rhain yn cael eu cofnodi ac efallai eu defnyddio i ddangos pa mor dda rydym yn credu eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion ac os oes angen unrhyw welliannau.

**Gwybodaeth bellach**

Ymwelwch â'r wefan i gael mwy o wybodaeth - [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) Yr eiddoch yn gywir,



**Isobel Moore**  
Pennaeth Rheoliad, Busnes ac Economeg  
Cyfoeth Naturiol Cymru